

Fel rhiant efallai eich bod yn poeni fod gan eich plentyn


# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Derbyn cefnogaeth: canllaw cam wrth gam



## 1. Siarad gydag athro/athrawes eich plentyn.

Os ydych chi'n tybio bod gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) siaradwch gydag athro neu athrawes eich plentyn neu'r Cydlynnydd ADY.



## 2. Creu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) â'ch gilydd.

Os ydych chi a'r ysgol yn gytûn bod gan eich plentyn ADY, bydd yr ysgol yn gweithio gyda chi a'ch plentyn i greu CDU.




## 3. Trafod unrhyw bryderon gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol.

Os nad yw'r ysgol yn cytuno bod gan eich plentyn ADY, neu os ydych chi'n anhapus gyda chynnwys CDU eich plentyn, trafodwch hyn gyda'r ysgol neu'r awdurdod lleol.



## 4. Gallech chi gael mynediad i eiriolwr.

Os yw'r awdurdod lleol yn cytuno gyda'r ysgol ac rydych chi'n anhapus o hyd, gallant eich cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth annibynnol.



## 5. Mae gennych chi hawl i apelio.

Mae gan bob plentyn, person ifanc, rhiant a gofalwr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau at Dribiwnlys Addysg Cymru.



Am fanylion a gwybodaeth bellach

Sganiwch y cod QR a gwyliwch y fideo